

MANYLEB ASESU LEFEL 6

Enw'r myfyriwr:		Rhif Adnabod y myfyriwr:	
Rhaglen:	BA Astudiaethau Addysg gyda Statws Athro Cymwysedig (SAC)		
Modwl:	Cylch 3: Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?		
Cod y modwl:	ECAD6017C	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):	100%
Darlithydd:	Elaine Sharpling	Gwiriwr Mewnol:	Sioned Hughes
Teitl yr Aseiniad:	Prosiect Ymchwil: Astudiaeth Achos yn seiliedig ar y Profiad Dewisol	Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):	4000 o eiriau
Dyddiad cyflwyno:	03.02.27 (cyn 23:59)	Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:	02.03.27
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol): Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb: Bydd gwaith a gyflwynir hyd at wythnos yn hwyr yn cael ei gapio ar 40% ar gyfer y cynnig cyntaf a dyfernir marc o 0% am waith ail-asesu. Dim ond os oes hawliad amgylchiadau esgusodol cymeradwy y gellir diddymu cosbau am gyflwyno'n hwyr. Bydd gwaith a gyflwynir fwy nag wythnos yn hwyr yn cael ei ystyried fel gwaith heb ei gyflwyno ac ni chaiff ei farcio. Gellir ystyried y gwaith fel cyflwyniad i'w ail-asesu os caiff ei gynnig gan Fwrdd Arholi neu os oes hawliad amgylchiadau esgusodol cymeradwy.		
Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:	Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwiliad a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		
Gwaith dros y terfyn geiriau:	Er mwyn cefnogi tegwch ac ysgrifennu academiaidd da, mae gan bob asesiad derfyn geiriau penodol. Mae'n bwysig eich bod chi'n aros o fewn y terfyn hwn. Mae'r terfyn geiriau yn helpu i sicrhau: Eich bod yn ysgrifennu'n glir ac yn gryno.		

- Bod pob myfyriwr yn cwblhau'r asesiad ar sail gyfartal.

Os yw'ch gwaith dros y terfyn geiriau

Os yw'ch gwaith yn fwy na'r terfyn geiriau, bydd y cosbau canlynol fel arfer yn berthnasol. Ni all y didyniadau hyn gymryd eich marc islaw'r marc pasio ar gyfer y modwl.

Canran dros y Terfyn	Cosb a Gymhwysir
Hyd at 10%	Dim cosb
10%–25%	Didynnu 5 marc <i>neu</i> ostwng y marc i'r marc sydd wedi'i gapio (pa un bynnag yw'r gosb leiaf)
26%–50%	Didynnu 10 marc <i>neu</i> ostwng y marc i'r marc sydd wedi'i gapio (pa un bynnag yw'r gosb leiaf)
Dros 50%	Marc wedi'i gapio ar y marc pasio

Enghreifftiau (Israddedig):

- Byddai marc o **44%** yn cael ei ostwng i'r marc pasio o **40%** os yw nifer y geiriau yn 10–25% dros y terfyn.
- Byddai marc o **49%** yn cael ei ostwng gan 5 marc i **44%**.
- Byddai marc o **47%** sydd 25–50% dros y terfyn geiriau yn cael ei ostwng i **40%**.
- Byddai marc o **55%** sydd 25–50% dros y terfyn geiriau yn cael ei ostwng 10 marc i **45%**.

Os ydych o dan y terfyn geiriau

Os yw'ch gwaith yn sylweddol is na'r terfyn geiriau, efallai y byddwch chi'n colli marciau oherwydd mae'n bosibl na fydd eich cyflwyniad yn cynnwys digon o fanylder i fodloni'r deilliannau dysgu.

Adborth

Os cymhwysir cosb sy'n gysylltiedig â'r terfyn geiriau, bydd hyn yn cael ei nodi'n glir yn eich adborth, ynghyd â'r rheswm.

Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyrwyr allu:

- cynllunio a chymhwyso methodolegau ymchwil priodol sy'n dangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol: bod yn ymchwilydd medrus;
- adfyfrio'n feirniadol ar le canolog arfer moesegol o fewn ymchwil yn y dosbarth, ac arddangos dealltwriaeth fanwl o'i egwyddorion: bod yn ymchwilydd moesegol;
- dangos rhywfaint o ymreolaeth wrth gynnal ymholiad agos-at-ymarfer i drawsnewid agwedd ar arfer personol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr: dangos trylwyrdd wrth gymhwyso sgiliau ymchwil priodol;
- dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol y dystiolaeth empirig berthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth a dogfennau polisi addysg, i nodi cysyniadau allweddol a defnyddio hyn i ffurfio dulliau addas i drawsnewid arfer dosbarth;
- gwerthuso tystiolaeth ymchwil yn feirniadol, gan ddangos barn gadarn am ddata i gefnogi penderfyniadau addysgegol a rhannu deilliannau mewn lleoliad proffesiynol: bod yn rhan o broffesiwn sy'n seiliedig ar ymholi.

DISGRIFIAD O'R DASG

Byddwch yn dylunio, yn cynnal ac yn gwerthuso'n feirniadol brosiect ymchwil agos at ymarfer (astudiaeth achos) gan ganolbwyntio ar fodel yr athro trawsnewidiol wrth ddatblygu ymarfer sy'n cael effaith gadarnhaol ar y dysgwr.

Nifer geiriau ar gyfer yr aseiniad hwn yw **4000** gair.

Aseiniad nodweddiadol fydd 4000 gair (+/- 10%) gan gynnwys tablau, ffigurau a chapsiynau. Dylech gynnwys cyfrif geiriau gyda'ch gwaith.

Cyflwyno gwaith:

Dylid cyflwyno gwaith i **Turnitin** fel a ganlyn:

I safle '**Traethawd**' - Tudalen deitl (gan gynnwys cod myfyriwr a chwestiwn ymchwil), testun yr aseiniad, rhestr gyfeirio.

I safle '**Atodiadau** (Dylai'r rhain gynnwys **ffurflen foeseg**, offer ymchwil (e.e. holiadur, arsylwadau, cyfweiliadau), llyfr lloffion aseiniad, ffurflen/llythyr caniatâd gwag, manylion am y broses gydsynio. Os yn berthnasol, gallwch gynnwys cynlluniau gwersi, copïau o waith disgyblion, ayyb.

Aseiniad ECAD6017C: Strwythur Awgrymedig ar gyfer y Traethawd

Adran	Cyfrif geiriau awgrymedig (Cyfanswm 4000)
'Pam' gwneud yr ymchwil – adroddwch eich stori wrthym Yn y cyflwyniad i'ch ymchwil, dywedwch wrthym eich stori neu'ch taith pam rydych chi wedi dewis y pwnc penodol hwn. Gall y cwestiynau hyn eich helpu i fyfyrrio ar eich penderfyniadau. Dylech ddefnyddio'r person cyntaf – 'Rwyf...' - Beth yn eich profiad o ddod yn athro sydd wedi arwain at eich pwnc ymchwil – pam dewisoch y maes hwn i ymchwilio iddo? - Pam mae'r pwnc hwn yn bwysig i chi a'ch credoau fel athro? 'Ble' yr ydych chi wedi gwneud yr ymchwil – dywedwch wrthym am y cyd-destun - Nodwch yn FYR gyd-destun yr ysgol a'r dosbarth/dosbarthiadau y cynhaliwyd yr ymchwil ynddynt. 'Nod' eich ymchwil - Beth yw nodau ac amcanion eich ymchwil – beth rydych chi'n gobeithio ei ddarganfod a pham? - Beth yw eich cwestiwn ymchwil?	250
'Moeseg' eich ymchwil Yn yr adran hon, dylech ddangos eich bod yn deall sut i fod yn ymchwilydd moesegol drwy esbonio sut mae eich safleoliad (positionality) yn chwarae rhan yn eich astudiaeth.	200

Nodir agweddau eraill ar feddwl moesegol yn yr adrannau canlynol.	
'Cefndir damcaniaethol' eich astudiaeth – dangoswch fod eich ymchwil wedi'i lywio gan lenyddiaeth Ysgrifennwch yn y 3ydd person Dylai'r adran hon gynnwys trafodaeth o lenyddiaeth sy'n ymwneud â'ch cwestiwn ymchwil. Cofiwch: • Crynhoi a syntheseiddio: rhoi trosolwg o brif bwyntiau pob ffynhonnell a'u cyfuno'n gyfanwaith cydlynol; • Dadansoddi a dehongli: peidiwch ag ail-adrodd ymchwilwyr eraill yn unig. Os yn bosibl, trafodwch arwyddocâd y canfyddiadau mewn perthynas â'r llenyddiaeth gyfan; • Gwerthuso'n feirniadol: sôn am gryfderau a gwendidau eich ffynonellau, ystyried yr awdur(on) a'u harbenigedd; • Ysgrifennu mewn paragraffau wedi'u strwythuro'n dda: defnyddio cysyllteiriau a brawddegau i amlygu cysylltiadau, cymariaethau a chyferbyniadau.	700
'Sut' gwnaethoch eich ymchwil - esboniad o ddull Astudiaeth Achos Ysgrifennwch yn y 3ydd person Dylai'r adran hon gynnwys trafodaeth o lenyddiaeth sy'n ymwneud â methodoleg ymchwil. • Dangoswch eich dealltwriaeth o ddull astudiaeth achos • Trafodwch unrhyw heriau ynghylch dylunio astudiaethau achos a chynigiwch atebion	300
'Pwy' sydd yn eich ymchwil – y sampl/cyfranogwyr yn eich astudiaeth ymchwil Ysgrifennwch yn y person cyntaf neu'r trydydd person • Pwy oedd y cyfranogwyr yn eich astudiaeth achos? • Sut wnaethoch chi ddewis eich cyfranogwyr? • Sut wnaethoch chi gael caniatâd/cydsyniad parhaus? Cyfeiriwch at eich ffurflen foeseg yn ôl yr angen	200
'Sut' gwnaethoch eich ymchwil – esboniad o'ch offer ymchwil Ysgrifennwch am yr offer ymchwil a ddewisoch i'w defnyddio yn eich astudiaeth ymchwil; e.e. arsylwi, cyfweiliad, holiadur. Ar gyfer pob offeryn ymchwil, trafodwch y pwyntiau hyn: Cyfiawnhewch eich dewis a chefnogwch hyn gan gyfeirio at lenyddiaeth ymchwil. • Eglurwch sut y defnyddiwyd pob offeryn ymchwil i gasglu data i ateb eich cwestiynau ymchwil. • Cyfeiriwch y darllenydd at enghreifftiau o amserlen arsylwi / cwestiynau cyfweiliad / cwestiynau holiadur yn yr atodiadau (e.e. gweler Atodiad 2...) • Rhaid i chi gynnwys gwybodaeth am sut y cynhaliwyd anhysbysrwydd a chyfrinachedd, ac am sut y rheolwyd yr hawl i dynnu'n ôl.	700

Sut' gwnaethoch eich ymchwil – dull dadansoddi eich data Ysgrifennwch yn y person cyntaf/trydydd • Archwiliwch y dull dadansoddi thematig (thematic analysis) yn feirniadol – dangoswch eich bod yn deall sut mae'n berthnasol i'ch data. • Peidiwch â disgrifio camau'r dadansoddiad ond nodwch a thrafodwch sut mae eich safbwynt (positionality) yn chwarae rhan yn y dadansoddiad e.e. beth yw'r effaith ar ddilysrwydd (validity) eich ymchwil?	350
'Beth' mae eich ymchwil yn ei ddweud – trafodaeth o'r canfyddiadau (findings) • Cyflwynwch eich canfyddiadau o dan eich themâu a nodwyd • Dychwelwch at eich llenyddiaeth i gefnogi eich syniadau • Darluniwch eich canfyddiadau gyda gwybodaeth o'ch data • Gorffennwch gyda pharagraff cryno o'ch canfyddiadau allweddol a gwnewch sylwadau ar ddilysrwydd (validity), dibynadwyedd (reliability) a chyffredinoladwyedd (generalisability) eich gwaith	800
Camau nesaf eich ymchwil – dywedwch eich stori wrthym Mae'r adran hon wedi'i strwythuro o dan dair pennawd a rhaid ei hysgrifennu yn y person cyntaf. Dylech fframio eich meddwl gan gyfeirio at y Safonau Proffesiynol. Gwybod – beth ydych chi wedi'i ddysgu o'ch ymchwil? Bod – a yw'r profiad hwn wedi newid eich credoau am addysgu mewn unrhyw ffordd? Gweithredu – beth yw eich camau nesaf wrth ddod yn athro ymholiadol (enquiring)?	500
Rhestr Gyfeiriadau	
Atodiadau Rhaid i'r rhain gynnwys: • Unrhyw offer ymchwil a grëwyd gennych, e.e. Taflen Arsylwi, Cwestiynau Cyfweiliad, Holiadur, manylion unrhyw ddull ymchwil arall. • Ffurflen Foeseg • Llythyr caniatâd rhieni gwag a manylion y dull a ddefnyddir er mwyn ennill cydsyniad disgyblion • Llyfr Lloffion Aseiniad	

Ar Lefel 6, dylech anelu at ysgrifennu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'ch traethawd yn y **trydydd person** ac yn y llais goddefol. Wrth fyfyrion ar eich ymarfer neu'ch profiad eich hun neu wrth egluro rhesymau dros eich dewisiadau, er enghraifft, eich cwestiwn ymchwil, rhaid i chi ysgrifennu yn **y person cyntaf**.

DS. Gofalwch nad ydych yn llên-ladrad eich gwaith eich hun o aseiniadau eraill. Os penderfynwch gyfeirio at awduron yr ydych wedi ysgrifennu amdanynt yn flaenorol mewn aseiniad arall, bydd angen i chi aralleirio eich geiriau eich hun i sicrhau nad ydych yn hunan-lên-ladrad.

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Aseiniadau

(Y darlithydd i ddynodi Gallwch/Na allwch neu Gywir/Anghywir yn erbyn pob elfen)

YMCHWIL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi mewn ymchwil a dadansoddi data.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
STRWYTHUR	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi wrth strwythuro eich gwaith, yn cynnwys llunio strwythur dadl drafft, dynodi adrannau a phenawdau ac ati.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
PRAWF DDARLLEN	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i wirio eich testun/creadigaeth eich hun am wallau gramadegol a chystrawennol, gan gynnwys cael awgrymiadau i aralleirio eich gwaith.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
YSGRIFENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu testun i'w gyflwyno.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
CREADIGOL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu deunyddiau creadigol, megis delweddau.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
RHAGLENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu a gwirio cod.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
DIM	Ar gyfer yr asesiad hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio unrhyw fath o gymorth drwy Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymchwil, cymorth strwythur, cymorth ysgrifennu / prawf ddarllen a chymorth creadigol.	☐

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt; dylech ddefnyddio adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol, lle bo'n briodol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygydd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad i *ystod* eang o ffynonellau, a allai fod yn academiaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academiaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academiaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnwl. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwyd fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnod addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Yn eich traethawd, mae angen ymgysylltu â llenyddiaeth academiaidd/theori; felly, dylech ddangos lefel eang o ddarllen o ffynonellau fel gwerslyfrau a chyfnodolion academiaidd. Trwy gyfeirio at y llenyddiaeth, dylech ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r ffocws ymchwil o'ch dewis ac astudiaeth achos fel dull

ymchwil. Gallech hefyd gyfeirio at gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru perthnasol, gan gynnwys dogfennaeth y cwricwlwm, ac unrhyw adroddiadau eraill (e.e. LIC, Estyn) sy'n berthnasol i'ch ffocws ymchwil.

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 6, dylech allu arddangos gwybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'r maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth. Dylech fod yn ymwybodol o ansicrwydd ac amwysedd gwybodaeth a'r cyfyngiadau arni. Mae'n rhaid i'ch gwaith ddangos ehangder cynyddol eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth systematig o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sy'n gysylltiedig â'r maes pwnc. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/ta sgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati yn ystrolon i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd, bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych chi'n arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth; yn ddelfrydol, dylai'r ddwy fod yn gyflawn ac yn fanwl, ac wedi'u trin a'u trafod yn gynhwysfawr.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Gan gyfeirio at eich ymarfer eich hun, dylech ddangos dealltwriaeth systematig o ymchwil ystafell ddosbarth ac o fanteision ac anfanteision defnyddio dull astudiaeth achos yn benodol fel dull ymchwil. Dylech hefyd ddangos gwybodaeth am gefndir eich ffocws ymchwil dewisol, a'r ddamcaniaeth y tu ôl iddo, gyda gwerthfawrogiad o gyfraniad posibl eich astudiaeth ymchwil benodol o fewn y maes. Dylech fyfyrion feirniadol ar fframweithiau moesegol perthnasol sy'n sail i ymchwil addysgol ac ystyried goblygiadau moesegol penodol ymchwil ar gyfer a gyda phlant o fewn eich cyd-destun. Dylech ddangos dealltwriaeth a chymhwyso cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol yr astudiaeth

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu: gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth, dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data y mae rhai ohonynt ar ben blaen disgyblaeth (ac a allai fod yn anghyflawn) er mwyn dyfeisio a chynnal dadleuon, ffurfio barn a/neu ddatrys problemau; disgrifio a rhoi sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil cyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol, gwerthuso a synthesis. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech bob amser ddarparu cyfiawnhad ar gyfer eich dadleuon a'ch barn. Mae darparu tystiolaeth eich bod wedi adfyfrio ar syniadau pobl eraill yn y maes pwnc yn hanfodol os ydych am gyflwyno dadl resymegol a gwybodus o fewn eich gwaith. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth o'ch gallu i ffurfio barn gadarn a dadleuon argyhoeddiadol trwy ddefnyddio data a chysyniadau. Mae casgliadau cadarn, dilys yn hanfodol ac mae'n rhaid iddynt deillio o gynnwys eich gwaith. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylech ddyfeisio a chynnal dadleuon, a thrafod materion sy'n ymwneud â chymhwyso'ch astudiaeth achos yn ymarferol yn eich ystafell ddosbarth. Dylech werthuso a syntheseiddio syniadau er mwyn dod i gasgliadau cadarn. Dylai'r argymhellion fod yn argyhoeddiadol, yn berswadiol, o bosibl yn heriol ac yn deillio o werthuso'r dystiolaeth. Dylech ddangos defnydd priodol o fframweithiau moesegol perthnasol.

4. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 6, dylech allu cymhwyso'r dulliau a'r technegau rydych wedi'u dysgu er mwyn adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau. Byddwch yn defnyddio'n gywir dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy, er mwyn dyfeisio a chynnal dadleuon a/neu ddatrys problemau. Dylech allu llunio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd ateb - neu ddynodi ystod o atebion. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw neu'r amgylchiadau hynny, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau, y gall rhai ohonynt fod yn arloesol ac yn greadigol. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf

penodedig. Dylech ddangos ymwybyddiaeth o gyfyngiadau cysyniadau a theorïau wrth eu cymhwyso mewn cyd-destunau penodol.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylech gyfeirio at eich profiad eich hun o fewn cyd-destun ystafell ddosbarth er mwyn dangos eich dealltwriaeth o'r elfennau sy'n rhan o'r broses astudiaeth achos. Dylai eich gwaith gyfeirio at gynllunio a gweithredu'r astudiaeth o'ch dewis, gan gynnwys trafodaeth ar unrhyw faterion y daethpwyd ar eu traws ac ar y broses o wneud penderfyniadau yn ystod yr astudiaeth. Dylech arddangos eich cyfrifoldeb personol wrth reoli eich dysgu eich hun trwy ymgysylltu â chynnwys modiwl, astudio hunangyfeiriedig ac ymarfer adfyfyriol.

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion sy'n gofyn am arfer menter a chyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau mewn amgylchiadau cymhleth ac anrhagweladwy. Mae hyn yn cynnwys dangos: y gallu i ddysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol i wella sgiliau presennol a chaffael cymwyseddau newydd o natur broffesiynol a fydd yn eich galluogi i ymgymryd â chyfrifoldeb sylweddol o fewn sefydliadau; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed yn unigol a/neu'n gydweithredol; eich bod yn gallu defnyddio cyfryngau priodol i gyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylech gynnal dadansoddiad beirniadol a gwerthuso'r fethodoleg ymchwil, gan nodi'r goblygiadau ar gyfer eich ymarfer yn y dyfodol. Dylech ddangos y priodoleddau a ddisgwylir mewn ymarfer proffesiynol gan gynnwys mentergarwch unigolyn, rheoli prosiect, cydweithio a sgiliau rhyngpersonol. Dylai eich traethawd gael ei ysgrifennu mewn arddull ffurfiol, gan gynnwys atodiadau os yw'n berthnasol. Fe ddylech chi ystyried eich cynulleidfa a sicrhau bod eich steil a'ch dull yn ennyn diddordeb y darllenydd.

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	Marciau sydd ar gael	Marciau a ddylfarn
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)		%
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

MEINI PRAWF ASESU GENERIG

Lefel 6

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 6 dylai fod gan fyfyrwyr wybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'u maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth. Byddant yn gallu defnyddio technegau dadansoddi ac ymholi sefydledig yn gywir o fewn disgyblaeth, gan ddefnyddio'u dealltwriaeth gysyniadol i ddyfeisio a chynnal dadleuon a/neu i ddatrys problemau. Dylent fod yn ymwybodol o ansicrwydd ac amwysedd gwybodaeth a'r cyfyngiadau arni. Dylent allu gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth, dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd ateb - neu ddynodi ystod o atebion. Byddant yn cymhwyso'r dulliau a'r technegau maent wedi'u dysgu i adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau. Bydd ganddynt y gallu i reoli eu dysgu eu hunain, a manteisio ar adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Byddant yn arddangos y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am y canlynol: arfer menter a chyfrifoldeb personol; gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy; y gallu i ddysgu sydd ei angen i ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfatebol.

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
Ymgysylltu â llenyddiaeth (yn cynnwys darllen, cyfeirnod, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnod mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnod.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnod'i'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnod ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnod, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnod'i'n gyson gywir.	Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Sgiliau cyfeirnod ar lefel uchel, wedi'u cymhwyso'n gyson ac yn broffesiynol.
Gwybodaeth a dealltwriaeth	Bylchau mawr yn y wybodaeth	Bylchau yn y wybodaeth, gyda	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Mae'r wybodaeth yn	Mae'r wybodaeth yn	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Gwybodaeth a dealltwriaeth

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
(Gwybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'r maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth.)	a'r ddealltwriaeth systematig o'r maes pwnc. Anghywirdebau sylweddol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth.	dealltwriaeth systematig arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth.	systematig gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion perthnasol yn y maes pwnc sydd i raddau cyfyngedig, wedi'u seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	gymharol fanwl a chywir gyda dealltwriaeth systematig dda o'r maes astudio ac i ryw raddau, o ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	gymharol helaeth, gydlynol a manwl. Arddengys ddealltwriaeth dda iawn o ehanger a manylder safbwyntiau sefydledig, ac mae'r gwaith, yn rhannol o leiaf, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	systematig gydlynol, fanwl, ragorol o egwyddorion a theorïau ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth glir o heriau i safbwyntiau sefydledig a chyfyngiadau'r sail wybodaeth.	systematig gydlynol, fanwl, eithriadol o egwyddorion a theorïau'r pwnc, wedi'u seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol, soffistigedig a manwl o amwyseddau a'r cyfyngiadau ar wybodaeth.
Sgiliau gwybyddol a deallusol (Meddwl cysyniadol a beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso ymchwil, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn); rhesymeg, dadl a barn).	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim dadansoddi, synthesis neu werthuso. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy.	Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd.	Ymgais cyfyngedig at feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn cynyddol ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. Yn haeru'n hytrach na dadlau achos.	Rhywfaint o feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso. Gall ddadansoddi cysyniadau a data newydd a/neu haniaethol heb arweiniad. Ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol safbwyntiau, a gallu i ddefnyddio tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) i gefnogi'r ddadl. Dadleuon dilys a barn resymegol	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso cadarn gan arddangos meddwl beirniadol. Gallu i ddyfeisio a chynnal dadleuon argyhoeddiadol ac i adolygu dibynadwyedd, dilysrwydd ac arwyddocâd tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) er mwyn llunio barn briodol a dilys ar y cyfan.	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso rhagorol. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig. Rhywfaint o dystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso eithriadol wedi'u seilio ar dystiolaeth a ddewiswyd yn ddoeth. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig, fanwl. Tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
				ar y cyfan. Rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth.		ar y maes a'r cysyniadau ehangach.	gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael ragorol ar y maes a'r cysyniadau ehangach.
Sgiliau ymarferol (Cymhwyso / defnyddio offer a thechnegau sefydledig yn gywir; cychwyn a chyflawni prosiectau; llunio atebion i ddatrys problemau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.)	Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn mewn cyd- destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd- destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan mewn cyd- destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	Ymwybyddiaeth ddigonol a chymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau sefydledig mewn modd priodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd- destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau safonol mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd- destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan mewn cyd- destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd- destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Tystiolaeth o beth arloesi a chreadigrwydd.	Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. Mae'r cymhwyso a'r defnyddio'n mynd y tu hwnt i gonfensiynau sefydledig. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion rhagorol. Arloesi a chreadigrwydd yn amlwg.	Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a defnyddio mewn cyd-destunau ymarferol, anrhagweladwy, gan dynnu'n fedrus ar yr ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion soffistigedig. Cymathu a datblygu prosesau a thechnegau blaenllaw.

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
			heb werthfawrogi'r cymhlethdod yn llawn.				
Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol (Arfer menter a chyfrifoldeb personol; datblygiad proffesiynol; cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau: yn unigol a / neu'n gydweithredol; defnyddio cyfryngau priodol i gyfathrebu'n effeithiol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn.)	Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddrylyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymreolaeth (neu o gydweithio, pan fo'n berthnasol) wrth gwblhau tasgau. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion.	Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd digyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Menter annibynnol (neu gydweithio, os ydy'n berthnasol), wan. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion.	Gall gyfathrebu mewn cyfrwng addas ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlynid mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o dîm, ond gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda rhai meysydd o fân wendid.	Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn fformat addas, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid.	Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda mân wendid achlysurol yn unig.	Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan reoli gwrthdaro a chan fodloni ymrwymadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion ac awydd i ddatblygu ymhellach.	Gall gyfathrebu gyda lefel eithriadol o uchel o broffesiynoldeb. Mae'r gwaith yn eithriadol o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n eithriadol o dda a phroffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain uwch. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion ac awydd i ddatblygu ymhellach.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG